## Cost hysbysiad cosb

Os bydd hysbyseb yn cael ei gyflwyno, bydd gan riant 15 o ddiwrnodau i ddarparu unrhyw dystiolaeth yr hoffent ei gyflwyno i'r ysgol i gefnogi eu rhesymau ynghylch pam na ddylai'r hysbysiad gael ei gyflwyno.

Bydd yr ysgol yn penderfynu a ydynt am dderbyn y dystiolaeth.

Nid oes cyfyngiad ar nifer y rhybuddion ffurfiol y gellir eu cyflwyno.

Os bydd Hysbysiad Cosb yn cael ei gyflwyno, dyma fydd y ddirwy:

**Yn y lle cyntaf, bydd rhaid talu £60 o fewn 28 o ddiwrnodau, a gall hwn godi i**

**£120 os na fydd yn cael ei dalu'n brydlon, a bydd angen talu hwn o fewn 42 o ddiwrnodau o dderbyn yr hysbysiad.**

Os na fydd yr Hysbysiad Cosb yn cael ei dalu bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried erlyniad ar gyfer y drosedd wreiddiol, sef 'methu sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol' o dan adran 444 o Ddeddf Addysg 1996.

## Cefnogaeth gyda Phresenoldeb Ysgol

Cofiwch os oes rhesymau ynghylch pam y mae eich plentyn yn colli'r ysgol, rhowch wybod i'r ysgol.

Os na fydd eich plentyn yn yr ysgol, siaradwch â'r ysgol cyn gynted â phosib ar ddiwrnod cyntaf ei absenoldeb.

**Disgwylir i'ch plentyn fod yn yr ysgol am 190 o ddiwrnodau o'r flwyddyn academaidd, gyda 175 o ddiwrnodau allan o'r ysgol o ganlyniad i benwythnosau, diwrnodau HMS a gwyliau ysgol.**



## Pwy ydych chi'n gallu ffonio?

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am gyflwyno Hysbysiadau Cosb o ysgol eich plentyn neu o **Wasanaeth Lles Addysg yr Awdurdod Lleol** drwy ffonio 01639 763620 neu e-bostio ews@npt.gov.uk

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am Hysbysiadau Cosb yn: **www.npt.gov.uk**

**Gwasanaeth Lles Addysg**

# HYSBYSIAD COSB

**Ar gyfer absenoldebau anawdurdodedig o'r ysgol**

GWYBODAETH AR GYFER RHIENI/GOFALWYR A DISGYBLION

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

## Hysbysiadau Cosb

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfarwyddo'r holl awdurdodau lleol i roi Hysbysiadau Cosb ar waith o dan Reoliadau (Hysbysiad Cosb) (Cymru) 2013.

Mae unrhyw absenoldeb o'r ysgol, am ba reswm bynnag, yn niweidiol i gyfleoedd bywyd tymor hir plentyn a dylid ei osgoi os yw'n bosib.

Mae Hysbysiad Cosb yn ddewis arall yn lle erlyniad gyda'r nod o geisio sicrhau gwelliant ym mhresenoldeb y plentyn yn yr ysgol.

## Apelio yn erbyn Hysbysiad Cosb

Nid oes hawl apelio statudol o dan y rheoliadau, ond pan fo rhiant yn herio cyflwyno Hysbysiad Cosb gallant gysylltu â'r Gwasanaeth Lles Addysg.

## Pwy sy'n gallu gwneud cais am Hysbysiad Cosb?

Gall y bobl ganlynol wneud cais i gyflwyno Hysbysiad o Gosb Benodol
Y Pennaeth, ei ddirprwy enwebedig,
yr Heddlu a Gwasanaeth Lles Addysg
Castell-nedd Port Talbot

## Pwy fydd yn derbyn yr Hysbysiad o Gosb?

Bydd hysbysiad yn cael ei gyflwyno i bob rhiant mewn perthynas â phob plentyn.

O dan adran 576 Deddf Addysg 1996, mae 'rhiant' yn golygu'r person â chyfrifoldeb rhiant a/neu'r rheini sy'n gyfrifol am ofalu am y plentyn o ddydd i ddydd ni waeth beth yw ei berthynas â'r plentyn .

## Pam y dylai fy mhlentyn fynd i'r ysgol bob dydd?

**Presenoldeb 100%**
0 diwrnod o ddysgu wedi'i golli
***Y cyfle gorau am LWYDDIANT!***

**presenoldeb 95%**
Colli pythefnos o ddysgu
***Bydd presenoldeb gwael yn effeithio ar ddysgu***

**Presenoldeb 90%**
Colli 4 wythnos o ddysgu
***Bydd presenoldeb gwael yn effeithio ar ddysgu***

**presenoldeb 85%**
Colli 5 1/2 wythnos o ddysgu
***Mae presenoldeb gwael iawn yn cael effaith sylweddol ar ddysgu. Rydych mewn perygl o gael eich erlyn.***

**presenoldeb 80%**
Colli 7 1/2 wythnos o ddysgu
***Mae presenoldeb gwael iawn yn cael effaith sylweddol ar ddysgu. Rydych mewn perygl o gael eich erlyn.***

## Gall Hysbysiad Cosb gael ei gyflwyno dan yr amgylchiadau canlynol:

**Pan fydd disgybl wedi colli o leiaf 10 sesiwn neu bum diwrnod ysgol o ganlyniad i absenoldebau anawdurdodedig yn ystod y tymor presennol sy'n golygu bod ganddynt bresenoldeb cyffredinol sy'n is na 90% yn ystod y flwyddyn academaidd hyd yma.**

**Pan fydd disgybl yn colli 10 sesiwn neu 5 diwrnod ysgol o ganlyniad i wyliau yn ystod y tymor ysgol os bydd yr absenoldeb yn golygu bod y presenoldeb ysgol gyfan yn is na 90% yn ystod y flwyddyn ysgol bresennol hyd yma.**

**10 sesiwn o fod yn hwyr yn gyson ar ôl i'r gofrestr gau yn ystod y tymor sy'n golygu bod ganddynt bresenoldeb sy'n is na 90% yn ystod y flwyddyn ysgol bresennol hyd heddiw, neu gyfuniad o'r uchod.**

